# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 20 Mai 2003 i'w hateb ar 3 Mehefin 2003

**R Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)**

## *Gofyn i Brif Weinidog Cymru*

**1. David Davies (Mynwy);** A yw'r Prif Weinidog wedi cael unrhyw drafodaethau gyda Gweinidogion Llywodraeth Cynulliad Cymru am atal Cyrff a Noddir gan y Cynulliad rhag dyfarnu contractau mewn dull afreolaidd. (OAQ24252)

**2. Leighton Andrews (Y Rhondda);** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar adroddiad Sefydliad Bevan, 'Ambitions for the Future'. (OAQ24284)

**3. Elin Jones (Ceredigion);** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar unrhyw drafodaethau y mae wedi'u cael ar adleoli swyddi Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Ganolbarth a Gogledd Cymru. (OAQ24251) **W**

**4. Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar ymdrechion Llywodraeth Cynulliad Cymru i hybu twristiaeth yng Ngogledd Cymru. (OAQ24255) **R**

**5. William Graham (Dwyrain De Cymru);** A wnaiff y Prif Weinidog roi amlinelliad o sut y bydd polisïau ei weinyddiaeth yn helpu cwmnïau sydd yn cael trafferth i lenwi swyddi i fynd ati i recriwtio. (OAQ24285)

**6. Christine Chapman (Cwm Cynon);** A wnaiff y Prif Weinidog roi manylion am yr hyn y mae'r Llywodraeth wedi'i gyflawni ym maes iechyd yng Nghwm Cynon. (OAQ24283)

**7. Janet Ryder (Gogledd Cymru)** A wnaiff y Prif Weinidog roi datganiad ar gynlluniau'r Llywodraeth i wella'r cysylltiadau trafnidiaeth rhwng y De a'r Gogledd. (OAQ24268)

**8. Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff y Prif Weinidog roi datganiad ar ddiddymu taliadau presgripsiwn yng Nghymru (OAQ24264)

**9. Catherine Thomas (Llanelli);** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar y modd y mae datblygiadau yn economi Cymru wedi effeithio ar etholaeth Llanelli. (OAQ24275)

**10. Carl Sargeant (Alun a Glannau Dyfrdwy)** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar sut y

mae datblygiadau yn economi Cymru wedi effeithio ar etholaeth Alun a Glannau Dyfrdwy. (OAQ24279)

**11. John Griffiths (Dwyrain Casnewydd);** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar y datblygiadau o ran cyflawni targedau Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer Datblygu Economaidd yng Nghymru. (OAQ24260)

**12. Jeff Cuthbert (Caerffili);** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar hynt y cynlluniau i ddatblygu ysbyty newydd yn etholaeth Caerffili i gymryd lle Ysbyty'r Glowyr, Caerffili. (OAQ24270)

**13. Val Lloyd (Dwyrain Abertawe);** Pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i gynyddu'r rhan sydd gan bobl ifanc i'w chwarae yn y broses o wneud penderfyniadau ar bob lefel. (OAQ24248)

**14. Mark Isherwood (Gogledd Cymru);** A wnaiff y Prif Weinidog ddisgrifio'r camau sydd i'w cymryd i gefnogi defnyddwyr Iaith Arwyddion Prydain yng Nghymru yn sgil y ffaith fod iaith arwyddion Prydain bellach wedi derbyn cydnabyddiaeth swyddogol. (OAQ24269) **R**

**15. Janice Gregory (Ogwr);** Pryd, ym marn y Prif Weinidog, y bydd pobl Cymru yn dechrau cael budd o'i ymrwymiad i roi presgripsiynau am ddim. (OAQ24277) **TYNNWYD YN ÔL**